# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 12FED MAWRTH, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

**AELODAETH:**

**Cyngor Gwynedd:**

| | |
|---|---|
| Anne Lloyd-Jones | Aelod Lleol Gorllewin Tywyn |
| Robert Dewi Owen | Aelod Lleol Aberdyfi |
| John Pughe | Aelod Lleol Morfa Tywyn |

**Aelodau Cyfetholedig:**

| | |
|---|---|
| Freddie Collier | RNLI Aberdyfi |
| David Williams | MPwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Al Crisp | Outward Bound Trust Wales |
| Guy Shaw | Clwb Rhwyfo Aberdyfi |

**Sylwedyddion:**

| | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet Datblygu’r Economi |
| Gwilym Jones | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadoog |
| Stephen Tudor | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau ofuddiant personol.

**3. COFNODION** 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2024 fel rhai cywir.

**4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 10 - 16

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**5. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 17 Hydref, 2024 (yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn).

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI, 17 HYDREF 2023

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr Gwynedd:** Y Cynghorwyr Robert Dewi Owen & Anne Lloyd-Jones.

**Aelodau Cyfetholedig:** Freddie Collier (RNLI Aberdyfi), David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Desmond George (Aelod o Glwb Hwylio Dyfi), Al Crisp (Outward Bound Trust Wales), Nigel Willis (Aelod o Glwb Cychod Dyfi).

**Sylwedyddion:** Y Cynghorydd Rob Triggs (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw) a'r Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Economi a Chymuned).

**Swyddogion yn bresennol:** Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), William Arthur Stockford (Harbwrfeistr Aberdyfi), Oli Simmons (Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi) a Ffion Elain Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2023/24.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd John Pughe yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2023/24.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Gwilym Jones (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog) a Guy Shaw (Clwb Rhwyfo Aberdyfi).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r cyfarfod hwn, a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023, fel rhai cywir.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod, a gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig sylwadau am eu cynnwys a gofyn cwestiynau.

**Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben Mawrth 2024.**

***Angorfeydd a Chofrestru Cychod***

- Esboniwyd bod 73 o gychod wedi bod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Aberdyfi yn 2023 a bod hyn yn gynnydd o un cwch o'i gymharu â'r nifer yn 2022. Gobeithir y bydd y cynnydd yma'n parhau yn 2024 ond bod y sefyllfa economaidd gyffredinol ac yn benodol, yr argyfwng costau byw presennol, yn parhau i fod yn ffactor wrth geisio denu cwsmeriaid i'r harbwr.
- Nodwyd bod y mwyafrif o aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno lansio cychod pŵer i ddyfroedd arfordir Gwynedd bellach yn cofrestru eu cychod pŵer ar lein drwy wefan Cyngor Gwynedd a bod 1269 o gychod pŵer a 1240 o fadau dŵr personol wedi'u cofrestru yng Ngwynedd y tymor hwn.

***Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd***

- Eglurwyd bod y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd ac mai ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd.
- Nodwyd bod y Gwasanaeth yn adolygu'r Cod yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau sydd o dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth lawn gyda gofynion presennol y Cod.
- Atgoffwyd ei bod hi'n hanfodol, fel rhan o'r broses adolygu, bod y Gwasanaeth yn derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol am ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol.

- Cyfeiriwyd at ddigwyddiad ar yr aber ym mis Mawrth oedd yn ymwneud â thri bad dŵr personol a chwch pŵer. Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth yn cydweithio gyda'r heddlu ar yr ymchwiliad i amgylchiadau'r digwyddiad a bod hyn mewn perthynas â throseddau posib a ddatgelwyd o dan ddeddfwriaeth a ddaeth i rym yn ddiweddar, y *Merchant Shipping (Watercraft) Order 2023*.
- Mynegwyd pryder am unigolion sy'n mynd allan ar y dŵr heb dystysgrif na hyfforddiant priodol. Holwyd a oes modd i'r harbwr feistr ofyn i weld tystiolaeth o dystysgrif pobl cyn gadael iddynt fynd ar y dŵr?
    - Mewn ymateb, eglurwyd nad oes gan yr Harbwrfeistr unrhyw bŵer statudol i orfodi pobl i ddangos eu tystysgrif na'u dogfennau yswiriant.
    - Nodwyd bod nifer o bobl yn mynychu hyfforddiant a bod y swyddogion yn swyddfa'r Harbwr yn rhagweithiol wrth annog pobl i fynd ar gyrsiau hyfforddi a bod cynnydd wedi'i weld yn y nifer o bobl sy'n mynd ar gyrsiau hyfforddi.
- Mewn ymateb i gwestiwn a oedd yn holi a oedd modd cael y pwerau statudol angenrheidiol i allu gorfodi gweld tystysgrifau, eglurwyd bod y pwerau ar gyfer hyn wedi'u lleoli yn San Steffan.
    - Serch hyn, eglurwyd bod rheoliadau newydd wedi'u cyflwyno a bod 'jet ski' bellach yn disgyn o dan y diffiniad o 'fad' neu 'gwch'. Nodwyd bod hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir.
    - Esboniwyd bod gan y Cyngor reoliadau mewnol hefyd a bod pob unigolyn sy'n cofrestru gyda'r Cyngor yn derbyn copi o'r rhain. Nodwyd bod y mwyafrif o unigolion yn ufuddhau i'r rheoliadau.

    - Nodwyd bod y Cyngor yn gwneud popeth y gallent o fewn eu pwerau presennol ac y byddent yn parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig tan y bydd tynhau pellach ar y gofynion.
- Holwyd sut y mae posib monitro gweithgaredd y bobl sy'n lansio ar ôl i'r wardeiniaid traeth a'r swyddogion adael ar ddiwedd y diwrnod gwaith neu bobl sy'n lansio o draethau cyfagos?
    - Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r ffaith bod pobl yn sicr yn dod o ardaloedd eraill a bod y llithrfa ar agor y tu allan i oriau gwaith. Cadarnhawyd nad oes posib eu goruchwylio tu allan i oriau gwaith.
    - Canmolwyd gwaith y swyddogion ar y traethau sy'n rhagweithiol wrth ofyn i bobl os ydynt wedi cofrestru ayyb a bod hyn yn ffordd ddefnyddiol o ddal unrhyw unigolion sydd ddim yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau.
    - Nodwyd bod y system ar lein yn golygu bod pobl yn gallu cofrestru cyn ymweld â'r safle rŵan.

***Materion Staffio***

- Nodwyd nad yw'r lefel staffio yn Harbwr Aberdyfi wedi newid ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor a bod yr Harbwrfeistr, William Stockford, yn parhau i gael ei gefnogi gan ei gymhorthydd, Oli Simmons.
- Eglurwyd bod staff yr harbwr wedi cynorthwyo a chydweithio gyda staff yn Nhywyn, Harbwr Abermaw ac ar y traeth ym Morfa Bychan yn ystod yr haf.
- Diolchwyd i'r wardeiniaid staff tymhorol fu'n gweithio yn Aberdyfi a Thywyn am eu gwaith caled dros yr haf.

***Materion Ariannol***

- Nodwyd bod yr ystadegau a nodwyd yn y tabl ar dudalen 14 o'r rhaglen yn seiliedig ar adolygiad gydag Adran Cyllid y Cyngor. Eglurwyd bod yr adolygiad wedi'i gynnal ddiwedd Awst ac felly bod 5 mis o wir-wariant a gwariant wedi'i broffwydo ar gyfer gweddill y cyfnod hyd at Fawrth 2024.
- Eglurwyd bod y ffigyrau o ran yr incwm yn ei gyfanrwydd yn galonogol ond y bod modd i hyn newid yn sylweddol gan ei bod hi'n anodd rhagweld beth y gallai ddigwydd rhwng rŵan a diwedd mis Mawrth. Nodwyd bod posib i gostau annisgwyl godi, yn enwedig os ceir tywydd garw dros y gaeaf.

***Ffioedd a Thaliadau 2024/25***

- Nodwyd nad oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud hyd yma ar lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf.

**Adroddiad yr Harbwr Feistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a Hydref 2023, gan gynnwys materion cynnal a chadw.**

***Materion Mordwyo***

- Nodwyd bod y sianel fordwyo i Harbwr Aberdyfi wedi bod yn cael ei monitro gan staff yr harbwr dros yr haf. Mae'r sianel yn ddeinamig ei natur ac felly mae'n rhaid i staff yr harbwr gynnal arolygon rheolaidd ar yr afon i bennu i ba raddau y mae'r banciau tywod yn symud.
- Eglurwyd bod archwiliad blynyddol o'r cymhorthion mordwyo wedi'i gynnal yn Harbwr Aberdyfi gan yr Awdurdod Goleudai Cyffredinol, Trinity House, ar yr

11eg o Hydref 2023, a'u bod yn hapus bod y cymhorthion mordwyo yn briodol. Nodwyd bod bwi marciwr arbennig melyn yn cael ei osod ymhen wythnos.
- Ategwyd y dylai morwyr gysylltu gyda swyddfa'r harbwr cyn dod i mewn neu adael yr harbwr ac i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y tywydd a mordwyo. Nodwyd y byddai newidiadau i unrhyw gymorthfeydd mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Hysbysiad Lleol i Forwyr.

***Materion Gweithredol***

- Esboniwyd bod y gwaith o adeiladu'r glan cei newydd fwy neu lai wedi'i gwblhau ac mai dim ond ychydig o waith adferol sydd ar ôl i'w wneud bellach.
- Nodwyd y byddai pâr o giatiau yn cael eu gosod ar draws y fynedfa i lanfa'r harbwr ac y byddai hyn yn gwella diogelwch y cyhoedd pan fydd gwaith pysgota yn digwydd yn y lleoliad hwnnw.
- Mynegwyd pryder am gyflwr strwythurol adeilad swyddfa'r harbwr a bod Adran Eiddo'r Cyngor yn ymwybodol o'r mater. Nodwyd eu bod yn disgwyl am ragor o wybodaeth ond bod y Gwasanaeth yn edrych ar ail-leoli staff yr harbwr i eiddo dros dro fel mesur interim, hyd nes y gwneir penderfyniad ar ddyfodol yr adeilad.

***Cynnal a Chadw***

- Nodwyd bod gwaith cynnal a chadw wedi'i gwblhau ac offer newydd wedi'i ddarparu ar gyfer yr angorfeydd a bod contractwyr angorfeydd lleol wedi gosod yr angorfeydd.
- Eglurwyd bod gwaith cynnal a chadw wedi'i gwblhau ar injans cwch patrolio Powercat yr harbwr cyn dechrau'r tymor prysur a bod y gwaith hwn hefyd wedi'i wneud gan gwmni lleol o Wynedd. Nodwyd bod y cwch yn parhau i berfformio'n effeithlon ac y byddai archwiliadau blynyddol yn cael ei chynnal arni er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio gyda gofynion morio'r Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau, yng nghyd-destun safonau adeiladwaith a chyfarpar y cwch.
- Nodwyd bod staff yr harbwr wedi dechrau ar waith cynnal a chadw ar y meinciau eistedd. Eglurwyd eu bod yn chwilio am unigolion sydd â chysylltiadau morwrol i Aberdyfi er mwyn eu coffáu ar y meinciau ac anogwyd yr Aelodau i gysylltu â staff yr harbwr os oes ganddynt unrhyw awgrymiadau addas.

***Materion Eraill***

- Diolchwyd i'r rhanddeiliaid lleol am eu hymdrechion wrth dreialu cyfarpar i gael gwared ar gasgliad mawr o dywod oedd wedi ymgasglu ar y llithrfa gerllaw Clwb Hwylio Dyfi a gorsaf y Bad Achub. Nodwyd y byddai'r broses yn parhau ac o bosib yn cael ei hadolygu.
- Nodwyd bod y Gwasanaeth yn parhau i obeithio y gellir darparu gwasanaethau trydan a dŵr yng nghompownd yr harbwr er mwyn cynorthwyo pysgotwyr lleol.
- Atgoffwyd bod y carcasau anifeiliaid sy'n golchi i'r lan ar y blaendraeth yn parhau i arwain at sawl diwrnod o waith ymatebol gan staff yr harbwr. Gofynnwyd i bobl roi gwybod cyn gynted â phosib os gwelant garcas, fel bod modd cymryd y camau angenrheidiol ar unwaith.

***Digwyddiadau***

- Nodwyd bod nifer o ddigwyddiadau wedi'u cynnal yn yr harbwr dros yr haf, gan gynnwys:
    - Digwyddiadau nofio
    - Digwyddiadau hwylio gan Glwb Hwylio Dyfi
    - Digwyddiad hwylio cenedlaethol y Noble Marine Allen RS 3000
    - Digwyddiad rhwyfo gan Glwb Rhwyfo Dyfi
    - Dyfi Fest
- Diolchwyd i staff yr Harbwr am eu gwaith a'r gefnogaeth sydd wedi'i ddarparu dros y flwyddyn ddiwethaf ac ategwyd bod perthynas waith da rhwng y rhanddeiliaid a staff yr harbwr.

` **Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned**

- Darparodd y Rheolwr Morwrol grynodeb o'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned.
- Nodwyd nad oes gostyngiad wedi bod yn y nifer o gwsmeriaid ar angorfeydd harbyrau Gwynedd ond nad yw'r sefyllfa yn ôl i ffigyrau 2021 eto. Gobeithir y bydd y niferoedd yn cynyddu dros y flwyddyn nesaf.
- Eglurwyd bod arwyddion gyda 'QR Codes' wedi'u gosod o amgylch yr harbyrau er mwyn ceisio canfod barn defnyddwyr – nodwyd bod 89% o ymatebwyr wedi nodi bod harbyrau Gwynedd yn 'dda' neu'n 'dda iawn. Anogwyd pobl i lenwi'r holiaduron er mwyn i'r Gwasanaeth allu deall y prif bryderon/rhwystredigaethau sy'n gysylltiedig â'r harbyrau.

- Holwyd faint o le sydd yna i gychod ar yr afon a mynegwyd pryder bod llawer mwy o dywod yn yr afon sy'n golygu llai o le i'r cychod.
    - Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn dasg y byddai'n rhaid i'r Harbwrfeistr a'r Contractwr Angorfa ei drafod ond eu bod yn parhau i fonitro'r sianel yn rheolaidd.
    - Nododd y Rheolwr Morwrol bod y Gwasanaeth yn bwriadu prynu drôn yn yr wythnosau nesaf gyda'r gobaith y bydd yn ddefnyddiol er mwyn monitro cwrs y sianel a gweld ble mae banciau tywod.

**PENDERFYNWYD**

**Nodi a derbyn yr adroddiadau.**

## 8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

**Y cynllun rheoli ar gyfer symud tywod o lithrfa'r harbwr**

- Mynegwyd pryder am y tywod sy'n ymgasglu ar lithrfa'r harbwr a nodwyd bod rhai trigolion yn bryderus y gallai hyn arwain at godiad yn lefel y dŵr fel y byddai'n mynd mewn i eiddo. Nodwyd y dylid ystyried dulliau o symud y tywod cyn i'r broblem waethygu ac arwain at broblemau yn y pentref.
- O ran y cynllun rheoli, eglurwyd y byddai angen iddo fod yn gost effeithiol fel y gellir ei wneud yn rheolaidd. Nodwyd bod angen bod yn wyliadwrus hefyd nad yw'r tywod sy'n cael ei olchi ffwrdd yn ymgasglu ymhellach i lawr y sianel a chreu banciau tywod.

- Diolchwyd am waith aelodau'r Clwb Hwylio oedd wedi bod yn treialu defnyddio pwmp er mwyn cael gwared â'r tywod. Nodwyd bod hyn i weld yn gweithio o'r lluniau.
- Nodwyd y byddai'n fuddiol cael cydweithrediad rhwng y Gwasanaeth a'r rhanddeiliaid ar y mater ac y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu er mwyn trafod y manteision a'r pryderon sy'n gysylltiedig â'r mater.
- Eglurwyd efallai y byddai angen trafodaeth ehangach gyda swyddogion yr Adran Priffyrdd er mwyn gweld beth yw'r datrysiad hirdymor.

**Diweddariad ar gyflwr pen y lithrfa**

- Codwyd pryderon am y step a'r tywod sydd wedi ymgasglu ar waelod y llithrfa a nodwyd bod y bad achub yn cael trafferthion lansio ar lanw isel ac y gallai hyn arwain at oedi yn eu hamser ymateb a difrodi'r cwch.
- Eglurwyd bod nifer o opsiynau wedi'u trafod i roi strwythur i waelod y llithrfa er mwyn hwyluso lansio'r bad achub a bod y Cyngor wedi trefnu i arbenigwyr ddod i roi ei farn ar y ffordd orau ymlaen. Nodwyd bod y Cyngor yn gobeithio derbyn adroddiad ganddo yn yr wythnosau nesaf er mwyn gweld yr opsiynau posib.

**Y Llwybr Cyhoeddus**

- Mynegwyd pryder am effaith erydiad arfordirol ar y llwybr cyhoeddus sy'n rhedeg o'r fynwent, ar draws y clwb golff i'r traeth a nodwyd nad oes posib defnyddio'r steps oedd wedi'u gosod ychydig flynyddoedd yn ôl bellach. Nodwyd bod angen gweithredu cyn i'r mor erydu'r tir ymhellach.
- Cynigwyd y gallai rhai o aelodau'r Pwyllgor drefnu cyfarfod gyda'r swyddogion er mwyn mynd i weld y sefyllfa a cheisio dod o hyd i ddatrysiad.

**9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 12fed o Fawrth 2024.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben am 12:05yh.

________________________________________

(Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **12 Mawrth 2024** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a Mawrth 2024, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998.

**2. Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod.**

2.1 Cyn cyfnod y Pasg, bydd yr Harbwrfeistr a'i gymhorthydd yn cynnal arolwg o'r afon i benderfynu ar y lleoliadau mwyaf addas i osod angorfeydd yr harbwr.

2.2 Disgwylir i gwsmeriaid sy'n dymuno cael angorfa yn yr harbwr neu gofrestru eu cychod dŵr ar gyfer y tymor sydd i ddod, gwblhau'r broses ar-lein yn brydlon drwy wefan Cyngor Gwynedd, cyn gynted ag y bydd y ffioedd priodol wedi'u cadarnhau. Wedi hynny, dylai cwsmeriaid angorfeydd gysylltu â'r Harbwrfeistr i gadarnhau eu lleoliad angori yn yr harbwr.

2.3 Mae'r Gwasanaeth yn edrych ymlaen yn obeithiol at gyfnod prysur yr haf eleni ac y bydd cwsmeriaid yr harbwr ac ymwelwyr yn mwynhau'r cyfleusterau sy'n cael eu darparu gan y cei newydd.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1. Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn yr amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o randdeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, gan gyfeirio'n benodol at weithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a'r gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Aberdyfi.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Gadawodd yr Harbwrfeistr Cynorthwyol, Mr Oliver Simmons, ei swydd gyda Chyngor Gwynedd fis Tachwedd diwethaf i gychwyn gyrfa gyda chwmni preifat sy'n ymwneud â gwaith arolwg morol. Dymuna'r Gwasanaeth ddiolch i Mr Simmons am ei waith ymrwymedig yn harbwr Aberdyfi a dymuno'n dda iddo ar ei fenter newydd.

4.2 Wrth ysgrifennu'r ddogfen hon, bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd yn fuan ar gyfer swydd wag yr Harbwrfeistr Cynorthwyol, lle bydd rhywun yn cael ei benodi yn dilyn proses gyfweld cyn dechrau'r tymor prysur. Yn y cyfamser, gall y Gwasanaeth ofyn am gymorth gan staff sydd wedi'u lleoli yn harbyrau Abermaw a Phorthmadog gydag unrhyw waith yn harbwr Aberdyfi os oes angen.

4.3 I gynorthwyo'r Harbwrfeistr a'i gymhorthydd gyda'u gwaith, mae swydd barhaol newydd wedi'i hysbysebu ar gyfer Swyddog Traethau yn harbwr Abermaw, i weithio ar hyd traethau'r arfordir rhwng Abermaw ac Aberdyfi. Gobeithir bydd y swyddog sydd newydd ei benodi yn dechrau yn y swydd cyn cyfnod y Pasg. Yn ôl yr arfer, bydd staff traethau tymhorol yn cael eu penodi i weithio ar draethau Aberdyfi a Thywyn erbyn i dymor prysur yr haf ddechrau.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Darperir crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter gan y Rheolwr Gwasanaeth.

5.2 Yn ystod y gaeaf, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod:

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
- Cynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2024/25.**

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Aberdyfi, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2024/25, fel ag o'r blaen, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant ar y pryd. Fodd bynnag, hyd yma, ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Aberdyfi yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a Mawrth 2024, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad ynghlwm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **12 Mawrth 2024** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **W.A.Stockford Harbwrfeistr Aberdyfi** |

**H 1 Materion Mordwyo**

1.1 Mae llwybr y brif sianel fordwyo i harbwr Aberdyfi wedi parhau i gael ei fonitro drwy gyfnod y gaeaf. Mae natur ffisegol yr afon ac ardal yr harbwr yn parhau i newid. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae ardal fawr i'r dwyrain o storfa fŵis Tŷ'r Drindod yn sychu ar lanw mawr dŵr isel. Bydd y gwasanaeth yn cynnal archwiliadau ac arolygon pellach yn unol â llanwau astronomegol isel yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth.

1.2 Unwaith fo'r arolygon pellach o'r sianel fordwyo wedi cael eu cynnal, bydd y Gwasanaeth yn gosod y cymhorthion mordwyo mewn lleoliadau addas i hwyluso teithio'n ddiogel i mewn ac allan o'r harbwr. Er mwyn cynorthwyo i gynnal arolygon o'r sianel, mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn offer Drôn sydd wedi profi i fod yn fuddiol wrth fonitro llwybr yr afon.

1.3 Ar hyn o bryd, mae dau 'Hysbysiad Lleol i Forwyr' (Notices to Mariners) yn weithredol yn Harbwr Aberdyfi.

1.3.1 Hysbysiad Lleol i Forwyr Harbwr Aberdyfi Rhif 01/24. Nid yw'r golau ar ochr Starboard Rhif 5 y cymhorthydd mordwyo llaw (Fl.G.4s) ar safle 52º32.173' N 004º 04.040' W yn gweithio. Mae'n hanfodol bod Morwyr yn mordwyo'n ofalus yn yr ardal hon.

1.3.2 Hysbysiad Lleol i Forwyr Harbwr Aberdyfi Rhif 02/24. Nid yw'r cymhorthydd mordwyo llaw Starboard Rhif 3 South Spit (Qk.Fl.G) ar safle 52º32.165' N 004º04.541' W ar ei safle priodol. Mae'r golau yn dal i weithio. Cynghorir Morwyr yn gryf i fordwyo'n ofalus yn yr ardal hon.

1.3.3 Mae'r Gwasanaeth yn hysbysu y bydd yr holl farciau mordwyo yn eu lle ac yn hollol weithredol cyn gynted â bo hynny'n ymarferol bosib, yn dibynnu ar ymrwymiadau'r contractwr mordwyo ynghyd â'r tywydd presennol ac amodau'r llanw.

1.4 Erbyn hyn, mae modd gweld pob Hysbysiad cyfredol i Forwyr ar gyfer y sir ar y dudalen Morol ar wefan Cyngor Gwynedd. Hysbysiadau Lleol i Forwyr (llyw.cymru) https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Leisure-parks-and events/Maritime/Local-Notices-to-Mariners.aspx

1.5 Dymuna'r Gwasanaeth bwysleisio pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwr yn Aberdyfi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch mordwyo.

## H 2 Materion Gweithredol

2.1 Fel y tymhorau blaenorol, gobeithir gosod angorfeydd cwsmeriaid yn eu lleoliad hanesyddol. Fodd bynnag, oherwydd natur afon Dyfi ac ardal o ddŵr sy'n parhau i ostwng oherwydd symudiad a siltio'r banc tywod, nid yw hyn bob amser yn bosib. Mae'r Gwasanaeth yn gwerthfawrogi dealltwriaeth cwsmeriaid yr harbwr o ran y sefyllfa hon.

2.2 Mae cwsmeriaid yr harbwr ac ymwelwyr wedi rhoi adborth cadarnhaol i adeiladu cei newydd. Mae darparu dŵr ffres a bachau trydan, ynghyd â gosod grisiau i roi mynediad hawdd o'r cei, wedi bod yn llwyddiant ychwanegol i'r cyfleusterau a ddarperir gan yr harbwr.

2.2.1 Mae'r camau adferol o Brosiect Datblygu Cei Aberdyfi bron wedi'u cwblhau, oni bai am roi ffendrau ar ran dwyreiniol wal y cei a chodi giatiau ar fynediad y lanfa. Mae disgwyl i hyn gael ei gwblhau cyn dechrau tymor prysur yr haf.

2.3 Mae'r tywod sy'n casglu yn parhau i gynyddu a llesteirio defnydd y lithrfa sydd gyferbyn â Gorsaf y Bad Achub ac eiddo Clwb Hwylio Dyfi. Gyda lefel y prif draeth fel y mae ar hyn o bryd, mae tynnu tywod o'r llithrfa yn parhau i fod yn broblem gyson. Mae'r Gwasanaeth yn gwerthfawrogi'n fawr ymdrechion rhanddeiliaid lleol i ddod o hyd i ddatrysiad i'r broblem.

2.4 Ar hyn o bryd, mae cwch patrol 'Powercat' yr harbwr yn derbyn gwaith cynnal a chadw i baratoi ar gyfer y tymor a ddaw. Fel rhan o reoliadau codio cychod Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, bydd angen i'r cwch dderbyn archwiliad gan Syrfëwr Morol cymeradwy ddiwedd Chwefror, a bydd injan y cwch yn cael ei atgyweirio gan beiriannydd morol lleol ar ôl hynny. Bydd y cwch yn dychwelyd i wneud dyletswyddau gweithredol wedi hynny.

## H 3 Cynnal a Chadw

3.1 Yn ogystal â chwch patrol yr harbwr, mae'r ôl-gerbyd ffordd sy'n dal cychod yr harbwr hefyd wedi cael gwaith cynnal a chadw arno. Mae pob ôl-gerbyd ffordd y mae'r Awdurdod Harbwr yn gyfrifol amdanynt yn cael eu gwasanaethu yn unol â'r rhaglen a gynlluniwyd.

3.2 Mae gwaith cynnal a chadw ar y Marc Melyn Arbennig (4 not) y cymhorthydd mordwyo wedi'i gwblhau ac mae bwi wedi ei osod gyda golau melyn newydd sy'n fwy llachar.

3.3 Bydd angorfeydd yr ymwelwyr yn cael gwasanaeth blynyddol cyn diwedd mis Mawrth i alluogi'r contractwr angorfeydd i'w gosod yn eu lle cyn gwyliau'r Pasg. Bydd yr angorfeydd yn cael eu gosod mewn dŵr dwfn er mwyn gwneud lle i gychod sy'n ymweld â'r harbwr gyda dyfnder mawr.

3.4 Hoffai swyddfa'r harbwr ddiolch i Outward-Bound Trust, Aberdyfi, am eu cymorth parhaus gyda materion cynnal a chadw ar y lan ac ar y dŵr y gaeaf hwn.

## H 4 Materion Eraill

4.1 **Pont Bryn Llestair.** Ar 15 Tachwedd 2023, cynhaliwyd seremoni ffurfiol i agor y bont droed newydd dros Reilffordd Arfordir y Cambrian yn swyddogol. Mae adeiladu'r bont, sy'n darparu cyswllt hanfodol i Fryn Llestair (Picnic Island), yn enghraifft o weithio mewn partneriaeth rhwng yr Awdurdod Harbwr a Rhanddeiliaid Lleol yn Aberdyfi.

4.2 **Ôl-gerbydau yn yr Harbwr**. Yn dilyn ailstrwythuro ardal yr harbwr, gan gynnwys darparu safle parcio ar gyfer cerbydau bach yn agos at orsaf y bad achub, mae ôl-gerbydau sy'n berchen i aelodau o'r cyhoedd ac yn cynnwys offer chwaraeon dŵr wedi cael eu hail-osod. Yn flaenorol, mae'r Gwasanaeth wedi cynghori bod angen codi ffi er budd defnydd o'r fath ar eiddo'r Awdurdod Harbwr, a bod modd talu'r ffioedd i'r Awdurdod Harbwr.

4.3 **Carcasau Anifeiliaid**: Mae carcasau anifeiliaid ar y blaendraeth wedi arwain at sawl diwrnod o waith ymatebol gan staff yr harbwr. Mae'r Gwasanaeth yn gofyn os ydych yn gweld unrhyw gyrff anifeiliaid, i roi gwybod i'r gwasanaeth cyn gynted â phosib. Hoffai'r Gwasanaeth hefyd atgoffa'r cyhoedd er bod angen ymateb yn sydyn weithiau, nid yw hyn bob amser yn bosib oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill ynghyd â nifer y staff sy'n gweithio ar unrhyw bryd.

4.4 **Glanhau Traethau:** Hoffai'r Gwasanaeth ddiolch i bawb am helpu i glirio sbwriel sy'n golchi i'r lan ar y blaendraeth lleol. Dylid rhoi gwybod i swyddfa'r harbwr am eitemau mawr a swmpus neu eitemau sy'n cael eu hystyried yn amheus, peryglus, cyrydol neu wenwynig ar unwaith, er mwyn trefnu i gael gwared arnynt yn ddiogel.

4.4.1 Ar ôl glanhau traeth, dylid rhoi gwybod i'r Gwasanaeth yn syth am unrhyw wastraff a gasglwyd sydd wedi cael ei adael mewn lleoliad, fel bod trefniadau yn medru cael eu gwneud i gasglu'r gwastraff heb oedi diangen.

4.5. **Lloc yr Harbwr:** Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn obeithiol o weithio gyda rhanddeiliaid lleol i ddarparu cyfleusterau trydan a dŵr i loc yr harbwr er budd holl ddefnyddwyr y lloc.

## H5 Digwyddiadau

5.1 Hyd yma, mae'r Gwasanaeth wedi derbyn hysbysiadau o flaen llaw o'r digwyddiadau arfaethedig canlynol a gynhelir yn Aberdyfi eleni.

- Rhaglen lawn o weithgareddau hwylio a gweithgareddau sydd wedi'u lleoli ar yr afon a gyflwynir gan Glwb Hwylio Dyfi.
- 15 Mehefin 2024 Pencampwriaethau Arfordirol Rhwyfo Cymru 2024. Regata Badau Rasio
- 14 Gorffennaf 2024 Regata Flynyddol Clwb Rhwyfo Aberdyfi
- Digwyddiadau wedi'u trefnu gan WeSwimRun. Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn aros am wybodaeth bellach ynghylch manylion y digwyddiadau.

5.2 Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa trefnwyr digwyddiadau o'r angen i roi gwybod ymlaen llaw am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig i ni er mwyn iddynt dderbyn caniatâd.

5.2.1 Wrth ystyried caniatáu unrhyw ddigwyddiad, bydd y Gwasanaeth yn rhoi sylw dyladwy i'r wybodaeth a dderbyniwyd yn manylu ar yr amgylchiadau, o ran unrhyw gyfyngiadau, amodau i'w gosod neu derfynau sydd eu hangen i sicrhau diogelwch y cyhoedd a'r staff.

| HARBWR ABERDYFI | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 - Adolygiad Tachwedd 2023 | | |
|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/23 at 31/3/24 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/23 at 31/3/24 | GOR (TAN) |
| Gweithwyr | 70,760 | 62,797 | (7,963) |
| | | | |
| Eiddo | 24,750 | 24,823 | 73 |
| | | | |
| Trafnidiaeth | 860 | 433 | (427) |
| | | | |
| Gwasanaethau a Cyflenwadau | 8,080 | 15,083 | 7,003 |
| | | | |
| Gwariant Un Tro - Ariannu o Cronfeydd yr Adran | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **104,450** | **103,136** | **(1,314)** |
| | | | |
| Incwm | (43,730) | (47,426) | (3,696) |
| Cyfraniad o Cronfeydd | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Net** | **60,720** | **55,710** | **(5,010)** |